Peidiwch meddwl eich bod chi'n well nag ydych chi. Byddwch yn onest gyda chi'ch hun wrth ystyried faint o ffydd mae Duw wedi ei roi i chi.

Mae'r eglwys yr un fath â'r corff dynol — mae gwahanol rannau i'r corff, a dydy pob rhan o'r corff ddim yn gwneud yr un gwaith. Yn yr eglwys, rŷn ni gyda'n gilydd yn gwneud un corff. Mae pob un ohonon ni'n rhan o'r corff ac mae arnon ni angen pawb arall.

Mae Duw wedi rhoi doniau gwahanol i bob un ohonon ni. Os ydy Duw wedi rhoi'r gallu i ti roi neges broffwydol, gwna hynny pan rwyt ti'n gwybod fod Duw am i ti wneud.

Os mai helpu pobl eraill ydy dy ddawn di, gwna waith dda ohoni. Os oes gen ti'r ddawn i ddysgu pobl eraill, gwna hynny'n gydwybodol.

Os wyt ti'n rhywun sy'n annog pobl eraill, bwrw iddi! Os wyt yn rhannu dy eiddo gydag eraill, bydd yn hael.

Os oes gen ti'r ddawn i arwain, gwna hynny'n frwd. Os mai dangos caredigrwydd ydy dy ddawn di, gwna hynny'n llawen.

Rhaid i'ch cariad chi fod yn gariad go iawn – nid rhyw gariad arwynebol. Cariad sy'n casáu y drwg â chasineb perffaith, ac yn dal gafael mewn popeth sy'n dda.

Byddwch o ddifri yn eich gofal am eich gilydd, a dangos parch at eich gilydd.

Peidiwch byth â gadael i'ch brwdfrydedd oeri, ond bod ar dân yn gweithio i'r Arglwydd yn nerth yr Ysbryd Glân.

Byddwch yn llawen wrth feddwl am y cwbl sydd gan Dduw ar eich cyfer chi. Byddwch yn amyneddgar os 'dych chi'n dioddef, a daliwch ati i weddïo. Rhannwch beth sydd gynnoch chi gyda phobl Dduw sydd mewn angen. Ewch allan o'ch ffordd i roi croeso i ymwelwyr yn eich cartrefi bob amser.

Peidiwch melltithio'r bobl hynny sy'n eich erlid chi — gofynnwch i Dduw eu bendithio nhw. Byddwch yn llawen gyda phobl sy'n hapus, a crïo gyda'r rhai sy'n crïo.

Byddwch yn ffrindiau da i'ch gilydd. Peidiwch meddwl eich bod yn rhy bwysig i fod yn ffrindiau gyda'r bobl hynny sy'n 'neb'. Peidiwch rhoi'r argraff eich bod yn gwybod y cwbl.

Peidiwch byth talu'r pwyth yn ôl. Gadewch i bobl weld eich bod yn gwneud y peth anrhydeddus bob amser.

Gwnewch bopeth allwch chi i fyw mewn heddwch gyda phawb. Peidiwch mynnu dial ar bobl, ffrindiau, gadewch i Dduw ddelio gyda'r peth. Fel mae'r ysgrifau sanctaidd yn dweud: “Os ydy dy elyn yn llwgu, rho fwyd iddo; os ydy e'n sychedig, rho rywbeth i'w yfed iddo”

Paid gadael i ddrygioni dy ddal yn ei grafangau — mi trechi di ddrygioni trwy wneud daioni.